Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd
ar gyfer 2010–2015

O ganlyniad i'r cynllun strategol hwn, dylech ddisgwyl bwyta bwyd mwy diogel a dewis prydau iachach a mwy cytbwys erbyn 2015

Gwybodaeth am fwyd –
ni sy'n gosod y safon

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Rhagair y Cadeirydd
Mae'n bleser gen i gyflwyno ein strategaeth pum mlynedd i ddiogelu bwyd y DU a hybu newid positif mewn deiet.

Aelodau Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a minnau sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth. Rydym ni'n gweithredu ar y cyd er lles y cyhoedd ac rydym ni'n ymrwymo i sicrhau bod yr Asiantaeth yn parhau â'i diben hollbwysig, sef bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i datblygu drwy ymgynghori â'n holl randdeiliaid, yn diffinio'r diben hwnnw ac yn nodi'r amcanion, y blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol. Bydd y rhain yn parhau i sicrhau y gall defnyddwyr ymddiried yn y bwyd y maen nhw'n ei brynu a'i fwyta.

Jeff Rooker
Cadeirydd

Rhagymadrodd y Prif Weithredwr
Er mwyn rhoi darlun clir o'r hyn yr ydym ni'n ceisio'i gyflawni, mae'r cynllun hwn yn disgrifio pum nod a sut y byddwn ni ac eraill yn mynd ati i wella iechyd y cyhoedd a diogelu buddiannau defnyddwyr. Mae hyn yn rhoi blas ar rywfaint o'n gwaith ni, ond nid y cwbl o bell ffordd.

Wrth i ni nesáu at ein hail ddegawd, byddwn yn ymateb i newidiadau byd-eang yn y gadwyn cyflenwi bwyd gan barhau i weithio'n galed i gyflwyno'n gwasanaethau mewn modd effeithlon, a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl. Rwy'n edrych ymlaen at ein gweld yn parhau i wneud cynnydd cryf ac ennyn hyd yn oed mwy o hyder ymhlith defnyddwyr yn ein gwaith hollbwysig.

Tim Smith
Prif Weithredwr

Ein diben? Bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb

Mwy am yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Rydym ni'n adran annibynnol o'r Llywodraeth a sefydlwyd yn 2000 gan Ddeddf Seneddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr o ran bwyd a diod. Mae'n gwaith ni'n cynnwys bwyd anifeiliaid hefyd.

Rydym ni'n cael ein llywodraethu gan Fwrdd, sy'n cael ei benodi gan y Gweinidogion i weithredu ar y cyd er lles y cyhoedd. Rydym ni'n atebol i Senedd y DU ac i'r gweinyddiaethau datganoledig, drwy'r Gweinidogion Iechyd neu'r Gweinidogion cyfatebol.

Ein hegwyddorion craidd:
- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored
- annibyniaeth
- yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth

Ni yw'r adran o Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am faterion diogelwch bwyd. Gan weithredu o fewn fframwaith cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn bennaf, rydym ni hefyd yn gyfrifol am reoliadau a pholisïau ar safonau bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys Canolog ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae nifer o asiantaethau gweithredol ledled y DU sy'n gyfrifol am waith gorfodi, megis swyddogion safonau masnach a swyddogion iechyd yr amgylchedd yn yr awdurdodau lleol, yr Adran Amaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, awdurdodau iechyd porthladd a'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS). Bydd yr MHS a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn uno yn 2010.

Rydym ni'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith i orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn gyson ledled y DU.

Rydym ni'n chwarae rhan allweddol wrth hybu deiet iachach yn y DU. Rydym ni'n gwneud hyn i ategu polisïau ehangach ar iechyd y cyhoedd. Yn y gwaith hwn, rydym ni'n adeiladu ar ein harbenigedd cryf mewn gwyddor maeth, dadansoddi'r dystiolaeth, a'r mesur uchel o hyder sydd gan ddefnyddwyr yn ein cyngor ni. Un peth sydd o gymorth i ni yw ein gallu i gydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag eraill, megis busnesau bwyd, i newid pethau.

Rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
Cawsom ein sefydlu ar adeg pan oedd hyder y cyhoedd yn ffordd y Llywodraeth o drin a thrafod materion diogelwch bwyd wedi gostwng yn is nag erioed.

Mae'n diben a'n hegwyddorion craidd mor berthnasol nawr â phan gawson ni'n sefydlu.

Ers hynny, gwelwyd gwelliannau gwirioneddol yn niogelwch bwyd y DU. Law yn llaw â'r cynnydd hwn, cafwyd cynnydd hefyd yn hyder y cyhoedd.

Amcan strategol:

Gwella diogelwch bwyd a chydbwysedd deiet



Canlyniadau

Mae'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu neu ei werthu yn y DU yn ddiogel i'w fwyta

Y prif flaenoriaethau:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd drwy ddefnyddio dull wedi'i dargedu – gan fynd i'r afael â champylobacter mewn cyw iâr fel blaenoriaeth
- cynyddu gwaith 'gwylio'r gorwel' a gwella'r wybodaeth fforensig o gadwynau bwyd byd-eang a'r ddealltwriaeth ohonynt er mwyn adnabod a lleihau effaith risgiau newydd posibl a risgiau sy'n ailymddangos – yn enwedig o ran halogi cemegol

Mae'r bwyd sy'n cael ei fewnforio yn ddiogel i'w fwyta

Y prif flaenoriaethau:

- gweithio'n rhyngwladol i leihau risgiau o fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu o wledydd y tu allan i'r UE
- sicrhau bod yna wiriadau yn y porthladdoedd a gwaith monitro yn yr awdurdodau lleol ar fewnforion drwy'r gadwyn fwyd gyfan, a bod y rhain yn cael eu seilio ar risg a'u targedu

Mae defnyddwyr yn deall am ddiogelwch bwyd a bwyta'n iach, ac mae ganddyn nhw'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus

Y prif flaenoriaethau:

- gwella ymwybyddiaeth a defnydd y cyhoedd o negeseuon ynghylch bwyta'n iach ac arferion da mewn hylendid bwyd yn y cartref
- cynyddu'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr am safonau hylendid safleoedd bwyd pan fyddant yn dewis ble i fwyta
- cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am galorïau mewn prydau bwyd mewn sefydliadau arlwyo
- hyrwyddo un dull syml ac effeithiol o labelu ar flaen pecynnau
- datblygu a hybu cyngor integredig gan y Llywodraeth i ddefnyddwyr am faterion bwyd

Mae cynhyrchion bwyd a phrydau arlwyo yn iachach

Y prif flaenoriaethau:

- parhau i sicrhau gostyngiadau yn lefel y braster dirlawn, halen a chalorïau mewn cynhyrchion bwyd
- rhoi hwb i ddatblygu, hyrwyddo a darparu dewisiadau iachach wrth i bobl siopa a bwyta allan
- sicrhau bod dognau o faint sy'n briodol ar gyfer deiet iach ar gael ac yn cael eu hyrwyddo

Mae'r gwaith rheoleiddio yn effeithiol, yn seiliedig ar risg ac yn gymesur, yn glir ynghylch cyfrifoldebau gweithredwyr busnesau bwyd, ac yn diogelu defnyddwyr a'u buddiannau rhag twyll a pheryglon eraill

Y prif flaenoriaethau:

- sicrhau bod polisïau'n cael eu gorfodi a'u rhoi ar waith yn effeithiol o fewn y DU i ddiogelu defnyddwyr rhag peryglon sy'n gysylltiedig â bwyd ac arferion twyllodrus neu gamarweiniol, gan dargedu'r meysydd lle mae'r risg fwyaf
- datblygu'n gwybodaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cynyddu nifer y busnesau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau
- diogelu defnyddwyr drwy ei gwneud yn haws i fusnesau gydymffurfio â rheoliadau, a lleihau'r baich ar fusnesau
- sicrhau prosesau rheoleiddio mwy cymesur ac effeithiol, wedi'i seilio ar risg, drwy gryfhau'n cysylltiadau yn yr UE ac mewn fforymau rhyngwladol
- gweithio'n rhyngwladol i ddylunio model ar gyfer cyfundrefn reoleiddio a gorfodi newydd i sicrhau bod y rheolaethau cig yn effeithiol

Gweithio o fewn y DU

Rydym ni'n cydweithio ag adrannau eraill o'r Llywodraeth ar bolisïau bwyd, yn enwedig o ran bwyta'n iach. Rydym ni'n adran sy'n gweithredu ar lefel y DU gyfan a chan fod pedair llywodraeth yn y DU, a bod y polisi bwyd wedi'i ddatganoli, rydym ni'n cydweithio'n agos â'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Diben hyn yw sicrhau bod diogelwch a safonau bwyd yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled y DU, a sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau cenedlaethol a lleol.

Rydym ni'n gweithio ar y cyd â'n partneriaid yn y gymuned gweithredu a gorfodi, yn enwedig felly swyddogion iechyd yr amgylchedd a safonau masnach yn yr awdurdodau lleol. Rydym ni hefyd yn cydweithio â rheoleiddwyr yn yr awdurdodau lleol a chyrff proffesiynol ym mhob un o bedair gwlad y DU, i sicrhau bod y gyfraith bwyd yn cael ei chymhwyso a'i gorfodi yn gyson.

Rydym ni'n darparu gwybodaeth a chanllawiau ar arferion gorau a gofynion cyfreithiol er mwyn helpu busnesau bwyd i ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi.

Rydym ni'n ymdrechu'n gyson i ddarparu gwybodaeth ddibynadwy, gyfoes am fwyd i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Rydym ni'n gweithio gyda defnyddwyr, er enghraifft drwy Fforymau Dinasyddion, a chyda sefydliadau y tu allan i'r Llywodraeth, a'r Trydydd Sector (gan gynnwys elusennau a grwpiau eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd).

Gweithio yn yr UE ac yn rhyngwladol

Ni sy'n cynrychioli Llywodraeth y DU mewn perthynas â materion diogelwch bwyd a safonau bwyd yn yr UE ac rydym ni hefyd yn gweithio ym maes maeth ac iechyd. Rydym ni'n cydweithio'n agos â'r Comisiwn Ewropeaidd, Cyngor yr UE, Pwyllgorau Sefydlog, Senedd Ewrop ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

Rydym ni'n gweithio'n rhyngwladol, gan gynrychioli Llywodraeth y DU ar gyrff rhyngwladol fel Cyd-gomisiwn yr FAO/WHO sef Codex Alimentarius, Sefydliad Iechyd y Byd, Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, a Sefydliad Masnach y Byd.

Mae gennym ni gysylltiadau cryf hefyd ag awdurdodau bwyd ledled y byd – er enghraifft, Aelod-wladwriaethau'r UE, yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Seland Newydd.

Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth

Mae Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth yr Asiantaeth yn disgrifio'r blaenoriaethau o ran y dystiolaeth y bydd arnom ei hangen a'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau ac yn defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth yn effeithiol yn ein gwaith. Bydd yn helpu i wireddu'r strategaeth pum mlynedd hon, yn brawf o'n cynnydd ac yn llywio datblygiadau yn ein gwaith ar ôl y cyfnod hwn. Mae'r Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth wedi'i chyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Datblygu cynaliadwy

Rydym ni am sicrhau bod ein diben ni, sef bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb, yn cael ei wireddu, gan sicrhau hefyd yr effeithiau positif mwyaf posibl a'r effeithiau negyddol lleiaf posibl ar y gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi.

Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw'r data cadarn ar beth yw bwyd cynaliadwy, ond mae hyn yn fater pwysig. Diogelwch bwyd a maeth yw maes ein harbenigedd ni ac felly byddwn yn cydweithio ag arbenigwyr cynaliadwyedd i wneud cynnydd ar yr agenda newydd hon ac adeiladu'r sail dystiolaeth angenrheidiol, ymatebion polisi cydlynol a chyngor i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau hefyd â'n prosesau 'gwylio'r gorwel' drwy gyfrwng y pwyllgorau cynghori gwyddonol a thrwy ymuno ar draws y Llywodraeth i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth, er enghraifft, o'r berthynas rhwng newid yn yr hinsawdd a diogelwch bwyd.

Rydym ni'n ymrwymo i leihau carbon, i effeithlonrwydd ynni ac i ailgylchu. Rydym ni'n anelu at fynd ar ôl arferion amgylcheddol cadarn yn ein swyddfeydd er mwyn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, gan leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

Yr adnoddau blynyddol angenrheidiol i wireddu'r pum canlyniad ar gyfer 2011/12 ymlaen



Cyfanswm yr adnoddau blynyddol angenrheidiol = £151m

45%
Rheoleiddio effeithiol, cymesur wedi'i seilio ar risg: £67m (mae'r costau'n cynnwys archwilio hylendid cig)

22%
Mae'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu neu ei werthu yn y DU yn ddiogel i'w fwyta: £34m

21%
Mae defnyddwyr yn deall am ddiogelwch bwyd a bwyta'n iach, ac maen nhw'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus: £32m

8%
Mae'r bwyd sy'n cael ei fewnforio yn ddiogel i'w fwyta: £12m

4%
Mae cynhyrchion bwyd a phrydau arlwyo yn iachach: £6m

Mae'r Asiantaeth yn cael ei hariannu gan Senedd y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Adnoddau

Mae'r adnoddau y bydd eu hangen arnom i wireddu blaenoriaethau'r strategaeth hon, ein rhwymedigaethau statudol a'n hymrwymiadau fel adran o'r Llywodraeth, i'w gweld uchod yn ôl y canlyniadau strategol y maen nhw'n eu hategu.

Sicrhau gwerth

Wrth wireddu'r canlyniadau sydd wedi'u nodi ar y tudalennau blaenorol, rydym yn anelu at weithio mewn ffordd sy'n gynaliadwy at y dyfodol, sy'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr nawr, ac sy'n rhoi bargen deg i fusnesau. Rydym yn anelu at weithio'n fwy deheuig fel adran o'r Llywodraeth ac fel rheoleiddiwr bwyd. Byddwn yn sicrhau gwell gwerth am arian drwy gyfres o fesurau. Mae'r rhain yn cynnwys uno'r Asiantaeth a'r MHS, a'u gwasanaethau cymorth corfforaethol, yn ffurfiol i greu Grŵp Gweithrediadau newydd i'r Asiantaeth gyda gwaith yr MHS wrth ei graidd. Byddwn hefyd yn cyflunio'r drefniadaeth yn unol â'n strategaeth.

Mesur perfformiad

Byddwn yn gosod mesurau perfformiad i fonitro'r cynnydd yn erbyn y pum canlyniad allweddol rydym ni'n mynd ar eu hôl yn y strategaeth. Byddwn hefyd yn cloriannu'r effaith y byddwn ni a'n partneriaid yn ei chael o ran gwella iechyd y cyhoedd. Gwnawn hyn drwy fesur tueddiadau mewn salwch a gludir gan fwyd a thrwy fonitro faint o halen, braster dirlawn a chaloriau y mae pobl yn eu bwyta, a faint o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta.

Byddwn yn adolygu'r strategaeth bob blwyddyn gan ei haddasu yn ôl yr angen i sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu rhag peryglon diogelwch bwyd a rhag anghydbwysedd yn y deiet.

Mae'r dadansoddiad a'r dystiolaeth a defnyddiwyd i ategu'r strategaeth hon a rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn cloriannu llwyddiant a'r effaith yn erbyn y pum deilliant ar gael ar ein gwefan yn food.gov.uk/strategy

Yr wybodaeth ddiweddaraf

I gael rhagor o wybodaeth am fwyd
ewch i wefannau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:
food.gov.uk
eatwell.gov.uk

Cliciwch ar 'Cymraeg'

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau o'r ddogfen hon neu unrhyw un o gyhoeddiadau eraill yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: 0845 606 0667
minicom: 0845 606 0678
ffacs: 020 8867 3225
e-bost: foodstandards@ecgroup.co.uk

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Rhagfyr 2009
Dyluniwyd gan The Team
Argraffwyd gan CW Print

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd yn Lloegr ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

FSA/1478/1209

ailgylchwch
Ar ôl gorffen gyda'r llyfryn hwn a fyddech cystal â'i ailgylchu